



Eglwys Bresbyteraidd Cymru
The Presbyterian Church of Wales

Eglwys Bresbyteraidd Cymru
Capel y Tabernacle
81, Heol Merthyr
Yr Eglwys Newydd
Caerdydd
CF14 1DD

The Presbyterian Church of Wales Office
Tabernacle Chapel
81 Merthyr Road
Whitchurch
Cardiff
CF14 1DD

Ffôn: 029 20627465
Ffôn: 07917422542
Ebost: swyddfa.office@ebcpcw.cymru
Gwefan: www.ebcpcw.org.uk

**I sylw:
Gweinidogion,
Arweinwyr a Blaenoriaid**

Eich Cyf:
Ein Cyf:
Dyddiad: 30/12/2021

Annwyl gyfeillion,

Pâr: Symud i Lefel 2 – Llywodraeth Cymru

Fel y gwyddoch mae'n siŵr, y mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i'r cynnydd diweddaraf yn nifer yr achosion o Coronafeirws drwy symud o Lefel 0 i Lefel 2. Yr ydym yn ddiolchgar eto i'r Parchg Gethin Rhys am ddarparu crynodeb o oblygiadau hyn, a gellir gweld y diweddariad drwy hwylio i wefan Cytûn, neu, drwy glacio yma - <https://www.cytun.co.uk/hafan/covid-19-papur-briffio/>.

Fel y gwelwch, nid yw'r oblygiadau yn newid yn sylweddol yr hyn a wnawn fel eglwysi, er hynny, mae'n ddefnyddiol cael ein hatgoffa o rai o'r elfennau ddylai gael sylw. Nodaf y canlynol:

- i. Rhaid wrth Asesiad Risg cyfredol o bob digwyddiad sy'n cael ei gynnal.
- ii. Rhaid gwisgo gorchuddion wyneb o dan do, ac er nad oes cyfyngu ar ganu mewn oedfa, eto, dylid ystyried sut mae gwneud hyn mewn ffordd 'ddiogel' o ystyried fod y feirws yma yn cael ei drosglwyddo gan anadl.
- iii. Rhaid adfer y rheol 2 fetr yn yr oedfaon, ac mae hyn yn berthnasol ar gyfer gwasanaethau cymun / bedydd. Dylid sicrhau y pellter hwn rhwng pob unigolyn, neu uned deuluol, neu grŵp o chwech.
- iv. Gan ei bod yn drosedd i beidio gweithio o gartref os yw hynny yn rhesymol bosibl, dylid cynnwys brawddeg mewn unrhyw asesiad risg sy'n nodi pam ei fod yn angenrheidiol i gynnal ein gweithgarwch yn gyfun.
- v. Nid oes cyfyngiad o 30 ar y nifer sy'n dod i gapel, mae'r ffigwr hwnnw yn ddarostyngedig i faint o bobl all ddod gan ddilyn y rheol 2 fetr, ond, os ydych yn cynnal eich oedfa mewn Canolfan Gymuned mae'r rheol yn gymwys, ac ni ddylai mwy na 30 fod yn bresennol, ag eithrio y rhai sy'n arwain/stiwardio.
- vi. Os ydych yn mynychu gwledd briodas neu de angladd, rhaid cymryd prawf llif unffordd (LFT). Nid yw'n ofynnol i gymryd prawf i fynd i oedfa, ond y mae Llywodraeth Cymru yn awgrymu yn gryf y dylech wneud hynny cyn mynd i gwrdd ag eraill.

Yng nghanol hyn i gyd, yr ydym yn ymwybodol iawn fod gwybod beth sy'n briodol i wneud yn gwestiwn anodd iawn i nifer o gynulleidfaoedd. Yr ydym yn gwybod yn dda am deuluoedd sydd wedi eu heffeithio gan y cynnydd diweddaraf yma mewn achosion, ac hyd yn oed os yw symptomau yr amrywiolyn newydd yn swnio'n llai dwys, eto, mae gorfod hunan-ynysu ayyb

yn medru dod â'i anawsterau. Fel Cristnogion, yr ydym am fod yn dystion da mewn cyfnod fel hwn, heb fod ar y naill law yn gorymateb, nac ar y llaw arall yn ddi-hid o ofid real amryw. Yr wyf fi, fel chwithau yn ymwneud ag eglwys leol o wythnos i wythnos, ac yn gwybod pa mor anodd yw penderfynu beth sy'n briodol. Wedi dweud hyn, un o'n cryfderau mwyaf yw cael pobl o'n cwmpas y byddwn yn trafod â hwy, ac yn cyd-benderfynu.

Wrth nesáu at Sul cyntaf blwyddyn newydd, yr oeddwn yn sylwi yn ôl y Bywgraffiadur mai ar y dydd hwn, (yn 1874) y ganwyd Nantlais. Yr ydym i gyd wedi canu ei emyn – *'Yn dy law y mae f'amserau, ti sy'n trefnu 'nyddiau i gyd,...'* Am y rhesymau uchod, ac am bob rheswm, ein nerth a'n doethineb yw i gydnabod y Duw sy'n parhau'n Dduw, hyd yn oed mewn cyfnod fel hwn. Peth naturiol felly i ni yw adleisio geiriau Nantlais – *'..gad im mwyach dreulio 'nyddiau yn dy law.'*


Yn rhwymau'r efengyl,



Y Parchg Evan Morgan
Llywydd



Y Parchg Brian Huw Jones
Cadeirydd



Y Parchg Meirion Morris
Ysgrifennydd Cyffredinol